# Mewn Ffocws

Materion allweddol sy’n effeithio’r sector peirianyddiaeth gwasanaethau adeiladu yng **Nghymru**



Hyrwyddwyd gan
Summit SKILLS
**Y Cyngor Sgiliau Sector ar ran Peirianyddiaeth Gwasanaethau Adeiladu**

HORIZON
Y cytundeb sgiliau sector ar ran peirianyddiaeth gwasanaethau adeiladu

# Dechreuwyr Newydd

## SGILIAU SYLFAENOL

- Mae 43% o gyflogwyr yn poeni'n ddirfawr am lefel isel llythrennedd a rhifedd dechreuwyr newydd.
  *36% Gogledd Cymru, 50% De Cymru*
- Mae pryderon hefyd yn cael eu mynegi gan gwmnïau Cymreig yngl_n â sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael a hefyd anaddasrwydd cyflogadwyedd a sgiliau agweddol ymysg dechreuwyr newydd.

## AMRYWIAETH

- Nid yw 80% o gwmnïau yn cyflogi menywod tu allan swyddi gweinyddol. Mae'r rhai sydd yn gwneud hyn, ddim ond yn cyflogi canran bychan.
  *80% Gogledd Cymru, 80% De Cymru*
- Mae gan 15% o gwmnïau weithwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol yn gweithio yn swyddi technegol.
  *7% Gogledd Cymru, 23% De Cymru*
- Mae 'na gyfleoedd i ddefnyddio staff benywaidd i ymweld â chwsmeriaid o grwpiau bregus neu ethnig fyddai'n anghyfforddus gyda gweithiwr gwryw.
- A dylai hyfforddiant gael ei datblygu mewn materion amrywiaeth ac ymddygiadau i wneud gweithlu'r presennol a'r dyfodol yn fwy ymwybodol o anghenion y grwpiau yma?

## GWEITHWYRYMFUDOL

- Dywedodd 20% o gwmnïau eu bod yn cyflogi gweithwyr ymfudol ar hyn o bryd.
  *30% Gogledd Cymru, 10% De Cymru*
- Fodd bynnag, gall y cynnydd disgwyliedig yn yr angen am weithwyr medrus newid y sefyllfa yma.
- Oes yna angen datblygu cyrsiau Saesneg ag hyfforddiant iechyd & diogelwch ar gyfer gweithwyr ymfudol er mwyn cwrdd â'r galw posibl yma yn y dyfodol?

## ANGHENION SGILIAU

- Mae angen i 78% o gyflogwyr hyfforddi eu gweithlu i lefel 3.
  *80% Gogledd Cymru, 76% De Cymru*
- Mae yna ychydig o bryder yngl_n ag ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant yn y wlad.
- Mae Cymru yn dangos cyfanswm annigonol o hyfforddiant staff rheolaeth ac arolygol mewn perthynas â rhanbarthau eraill o'r DU.

## CYNLLUNIO SENARIO

- Mae gan 'SummitSkills' dau fodel rhagweld gweithlu ar gyfer angen llafur, a gynhyrchwyd gan 'BSRIA' ac 'Experian'.
- Mae 68% o gyflogwyr Cymreig yn disgwyl bydd y farchnad am eu gwasanaeth yn cynyddu, fydd yn cynyddu'r galw am ddechreuwyr newydd.
  *57% Gogledd Cymru, 80% De Cymru*
- Felly mae 'SummitSkills' yn argymell y dylai'r model mwy optimistaidd ('Experian') gael ei weithredu ar gyfer cynllunio Cymreig.

## Y CWESTIYNAU MAWR:

- Pa mor bwysig yw bob un o'r materion yma i fusnes?
- Beth yw'r ffyrdd fwyaf effeithiol o ymdrin â nhw?
- Ydy'r atebion yma yn barod yn eu lle sy'n cwrdd â'r gofynion a adnabuwyd?
- Ydy hi'n bosib i atebion eraill sy'n barod yn eu lle gael eu newid neu eu datblygu?

*Cyfartaledd o'r ffigyrau Gogledd a De Cymru a nodir mewn llythrennau italig yw'r prif ganrannau a nodir*

# Datblygiad busnes & gweithlu

### ANGHENION SGILIAU

- Mae nifer o gyflogwyr yng Nghymru wedi adnabod yr angen am waith tîm a chyfathrebu.
- Ni adnabuwyd unrhyw sgiliau pellach na'r lefelau presennol gan 60%.
  *63% Gogledd Cymru, 57% De Cymru*
- Nid oedd 58% yn hyfforddi eu staff rheolaeth neu arolygol – mae'n bosib fod hyn yn cael effaith niweidiol ar gynhyrchiant.
  *70% Gogledd Cymru, 47% De Cymru*
- Mae rhyddhau am y dydd yn creu anhawster i rai cyflogwyr – gall ddysgu hirbell fod yn ateb.
- Soniodd rhai cwmnïau am rag saernïaeth, Datblygiad Proffesiynol Parhaol, sgiliau TG, iechyd a diogelwch a sgiliau ymarferol.
- Fodd bynnag, ni ragwelwyd unrhyw anghenion datblygiad sgiliau'r dyfodol i'w cwmnïau gan 73% o gyflogwyr.
  *73% Gogledd Cymru, 74% De Cymru*

### YMDDEOLIAD A GWASTRAFF NATURIOL

- Nid yw'r mwyafrif o gwmnïau yng Nghymru yn gweithredu cynllunio ymddeoliad. Mae hyn yn amlwg yn annigonol i wneud ystyriaeth ar gyfer colli aelodau o'r gweithlu.
- Mae Cymdeithasau Masnach yn cynnig hyfforddiant mewn cynllunio ymddeoliad - a ddylai egwyddorion yr hyfforddiant yma gael eu gweithredu'n fwy gweithgar?

### CYSTADLEUAETH & PHARTNERU

- Mae yna gystadleuaeth sylweddol rhwng cwmnïoedd gyda chystadleuaeth am gytundebau.
- Nid yw cytundebau ymestynnol a threfniadau partneru, sy'n annog cydweithrediad yn hytrach na chystadleuaeth, sy'n dechrau dod yn fwy amlwg yn rhanbarthau Lloegr, yn amlwg yng Nghymru.
- A oes angen hyfforddiant pellach er mwyn annog a rhoi sylw i drefniadau partneru?

### P_ER BARGEINIO GYDA CHYFLENWYR/CWSMERIAID

- Mewn perthynas â ph_er bargeinio gyda chwsmeriaid, tra bod gwasanaeth, enw da'r cwmni a thraddodiad yn cael eu cyfeirio gan nifer fawr o gwmnïau, pris oedd yn dal i fod y ffactor bwysig.
- Soniwyd am ddefnydd reolaeth gadwyn cyflenwad gan rai o'r cwmnïau a arolygwyd yng Nghymru.
- A fyddai fwy o effeithlonrwydd yn cael ei gyflawni drwy hyfforddiant i'r sector ar dechneg reolaeth gadwyn cyflenwad?

### YMCHWIL A DATBLYGIAD

- Dim ond 25% o gwmnïau sy'n ymgymryd â ffurf o ymchwil – fe fydd y mwyafrif o gwmnïau sydd ddim yn ymgymryd ag ymchwil o dan anfantais.
  *27% Gogledd Cymru, 23% De Cymru*
- Mae 'SummitSkills' wedi ei leoli'n dda i weithio fel brocer i ehangu marchnadwyedd a pherthnasedd ymchwil i'r diwydiant.

### GWEITHREDIAD TG NEWYDD

- Mae cyflogwyr TG yn ymateb yn dda i TG newydd sy'n dangos ymroddiad sylweddol, gydag amrywiol raddau o arbenigedd ymysg staff.
- Mae'n bosib fydd rhai gweithwyr angen hyfforddiant pellach er mwyn cynyddu lefelau sgiliau TG, i wneud defnydd o'r technolegau sydd ar gael a gwella cynhyrchiant yn y dyfodol.

### MENTER

- Mae 69% o gwmnïau yn teimlo fod entrepreneuriaeth yn fater pwysig. Roedd llai yn teimlo fod ganddynt y sgiliau angenrheidiol.
  *62% Gogledd Cymru, 77% De Cymru*
- A oes angen i'r sector ymchwilio datblygiad yn sgiliau entrepreneuriaeth, naill ai fel cyrsiau archebwyd neu drwy integreiddio yn addysg alwedigaethol gyffredinol.
- Mae 'SummitSkills' yn nodi fod gymaint o fusnes newydd a gweithgaredd entrepreneuriaeth yn cael ei gychwyn gan gwmnïau bach gychwynnwyd gan weithredoedd crefft, argymhellir ymestyn yr hyfforddiant yma i holl lefelau o fewn y cwricwlwm, ac mae'n bwysig peidio ei weld fel swyddogaeth rheolaeth neu dechnegydd.

### MEINCNODI

- Mae'r sector yn medru cael mynediad i systemau meincnodi, ond mae'r mwyafrif o gwmnïau yn dewis peidio gwneud hynny.
- Dim ond 15% o gwmnïau Cymreig sydd ynglwm â meincnodi ffurfiol, fodd bynnag mae 56% yn gweithredu technegau meincnodi anffurfiol.
  *13% Gogledd Cymru, 17% De Cymru – ffurfiol*
  *60% Gogledd Cymru, 53% De Cymru – anffurfiol*
- Er mwyn i fwy o gwmnïau elwa o dechnegau ffurfiol, a ddylai ymarferion meincnodi ffurfiol eu hintegreiddio i hyfforddiant ar gyfer rheolwyr ac arolygwyr?

### Y CWESTIYNAU MAWR:

- C Pa un o'r materion a restrwyd uchod sydd angen y sylw brys fwyaf?
- C Sut y gellir ymdrin â nhw?
- C Oes yna systemau a rhaglenni yn eu lle yn barod sy'n cwrdd â'r gofynion yma?
- C A ellir addasu neu ddatblygu atebion presennol?

# Dylanwadau Allanol

## BYD-EANG

- Nid yw 76% o gyflogwyr yng Nghymru yn meddwl bydd y farchnad yn cael ei effeithio'n niweidiol gan gystadleuaeth tramor. *73% Gogledd Cymru, 80% De Cymru.*
- Fodd bynnag drwy systemau tendro agored gall gwmnïau brofi cystadleuaeth o dramor am waith yn farchnadoedd cartref.
- Os yw dirnadaeth cyflogwr yn anghywir, gall adael y sector yn fregus unwaith fod cystadleuaeth tramor wedi ei sefydlu.

## NEWID TECHNOLEG/AMGYLCHEDDOL

***Y grym gyriadol:***

- Mae polisi ynni'r DU yn ymrwymedig i leihau gollyngiadau 'CO 2' 60% erbyn 2050.
- Fe fydd £22 miliwn yn cael ei fuddsoddi dros ddwy flynedd i gryfhau galw defnyddiwr ar gyfer effeithiolrwydd ynni.
- Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru strategaethau ynni ac amgylcheddol cynhwysfawr sy'n manylu'r datblygiad o ficro cenhedlaeth, technoleg adnewyddadwy a chynaliadwy yn y wlad.

***Yr angen sgiliau:***

- Mae 76% o gyflogwyr yn teimlo eu bod yn gyfforddus mewn sgiliau amgylcheddol, fodd bynnag, ymddengys fod y rhain yn gyfyngedig i dechnoleg bresennol sy'n cael ei yrru gan ddeddfwriaeth fel boeler cyddwyso. *73% Gogledd Cymru, 80% De Cymru.*
- Mae llai yn hyderus mewn sgiliau megis heulol a ffotoffoltäig.
- Mae'r sector yn adweitheddol yn hytrach na pro-weithredol yn hyfforddi mewn technolegau newydd.
- I gwrdd â'r galw cynyddol am osodiad a chynhaliaeth ynni adnewyddadwy, mae angen datblygu fwy o gyfleoedd hyfforddiant ardystiedig.

## RHEOLIAD LLYWODRAETH

- Mae cyflogwyr yn teimlo nad oes digon o arolygaeth yn cymryd lle ar safleoedd o safbwynt monitro cyfundrefnau cardiau cymhwyster.
- Mae llawer o gwmnïau yn tynnu sylw at gostau cynyddol ar fusnes yng ngoleuni'r Rheolau Adeiladu.

## Y CWESTIYNAU MAWR:

- Sut mae'r dylanwadau allanol hyn yn cael effaith ar fusnes?
- Sut gall y sector sicrhau ei fod yn barod am newid?
- Oes yna atebion sy'n bodoli yn cwrdd â'r gofynion a adnabuwyd.
- Gall atebion eraill sydd yn barod yn eu lle eu haddasu neu eu datblygu.

**'SummitSkills' Cyfyngedig**
Vega House, Opal Drive,
Fox Milne, Milton Keynes, MK15 0DF

Rhif ffôn: 01908 303960
Rhif ffacs: 01908 303989
www.horizon-ssa.org.uk
e-bost: enquiries@summitskills.org.uk

sgiliau
AR GYFER BUSNES